CYNGOR CYMUNED BRITHDIR, LLANFACHRETH A RHYDYMAIN
COFNODION CYFARFOD MEDI 19, 2023

**Cyfarfod Cyngor Cymuned Brithdir, Llanfachreth a Rhydymain a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Rhydymain**
**Nos Fawrth, Medi 19, 2023 am 7:30 o'r gloch.**

**www.cyngorllanfachreth.cymru**

**Presennol** Cynghorwyr Meurig Ashton (Cadeirydd), Gerallt Griffith, Rhun Prys Jones, Peredur Jenkins, Karen G. Goswell, Emlyn Roberts, Barry Jones, Llion Williams. Hefyd Cyng. Delyth Lloyd Griffiths a Henry M. Edwards.

**1. Croeso'r Cadeirydd** Croesawyd pawb i'r cyfarfod.

**2. Ymddiheuriadau:** Robin Jones.

**3. Datgan diddordeb.**

Eitem 6.o. Roedd Peredur Jenkins, Llion Williams a Gerallt Griffith yn datgan diddordeb ynglŷn â Neuadd Bentref Llanfachreth.

Eitem 7.ch. Roedd Emlyn Roberts a Peredur Jenkins yn datgan diddordeb ynglŷn â chais cynllunio.

**4. Cadarnhau cofnodion cyfarfod Gorffennaf 18, 2023.**

Cynigwyd ac eilwyd fod y cofnodion yn gywir.

**5. Materion yn codi o'r cofnodion Gorffennaf 18, 2023.**

Eitem 10.a. Llythyr (19/7/2023) (trwy law Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod byddent yn trefnu asesiad o gyflwr y ffordd gefn Gwanas i Brithdir. Adran Traffig fydd yn ystyried unrhyw arwyddion o'r newydd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Neges (28/7/2023) oddi wrth Delyth yn rhoi gwybod mae Cyngor Gwynedd wedi asesu'r ffordd "di- ddosbarth" rhwng Gwanas a Brithdir i weld beth sydd yn bosib o ran atal cerbydau mawr i'w defnyddio.

Eitem 6.dd. Llythyr (27/7/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn amgáu cyflwyniad gwnaeth Tom Williams o MAGNOX ar ddyfodol Trawsfynydd yng nghyfarfod diwethaf Pwyllgor Ardal Meirionnydd o Un Llais Cymru.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

**6. Gohebiaeth**

a. Llythyr (20/7/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am hyfforddiant bydd ym mis Gorffennaf ac Awst, 2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

b. Llythyr (1/8/2023) oddi wrth 'Diolch am 20' gyda gwybodaeth ar 20mya.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

c. Llythyr (2/8/2023) oddi wrth Reolwr Polisi Cynllunio, Cyngor Gwynedd ynglŷn ag Erthygl 4 ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl yn Ardal Cynllunio Leol Gwynedd (tu allan i Parc Cenedlaethol Eryri) .

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (2/8/2023 ) oddi wrth Mabon ap Gwynfor MS yn rhoi gwybod am gyfarfod i drafod darpariaeth ddeintyddol yn ein hardal bydd yn cael ei gynnal ar ddydd Llun Medi 11 am 10.30yb. Os mae materion i godi mae eu hangen cyn y cyfarfod, a chael gwybod pwy fydd yn bresennol. Amgáu mae linc i gofrestru.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (22/8/2023 a 8/9/2023) yn atgoffa am y cyfarfod.

Anfonwyd y llythyrau i'r aelodau.

Roedd Karen G. Goswell a Chyng. Delyth Lloyd Griffiths yn bresennol yn y cyfarfod. Dywedwyd nid yw sefyllfa ddeintyddol ddim yn dda er roedd canmoliaeth i bractis Eirlys yn Dolgellau. Mae awgrym i gyflogi deintyddion yn yr ysbytai.

d. Llythyr (8/8/2023) oddi wrth Archwilio Cymru yn rhoi gwybod mae ganddynt ddodrefn eu rhoi i sefydliadau cyhoeddus; angen eu casglu yn Abergele.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau

dd. Llythyr (9/8/2023) oddi wrth oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafnidiaeth dros dro ar ffordd o'r Hen Felin i'r de i drac yn arwain i Ben y Ffridd, Llanfachreth. Bydd y ffordd ar gau ar 15/9/2023 am ddiwrnod ond nid hwy na 3 diwrnod i BT Openreach gwneud gwaith.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

e. Llythyr (11/8/2023) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am lansiad dwy gronfa ar gyfer datblygu busnes gan Cyngor Gwynedd ar 15/8/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Llythyr (14/8/2023) (trwy law Cyng. Delyth Lloyd Griffiths) oddi wrth Gwasanaeth Cyfreithiol, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod am rybudd gwaharddiad trafnidiaeth dros dro ar Ffordd Dosbarth III ger tir Penrhos Isaf, Llanfachreth. Daw'r gwaharddiad i rym ar 11/9/2023 i Scottish Power gwneud gwaith bydd yn parhau am tua 23 diwrnod.

ff. Llythyr (25/8/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyrsiau ym mis Awst a Medi.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

g. Llythyr (31/8/2023) oddi wrth Gwasanaethau Etholiadau Gwynedd, Cyngor Gwynedd gyda holiadur yn gofyn:

os mae sylw angen ei wneud â ffiniau y Gymuned,
os ydym yn hapus gyda nifer o gynghorwyr ar y Cyngor Gymuned -
h.y. 4 yn Brithdir, ac 8 yn Machreth.
os ydym yn hapus â'r wardiau – h.y. Brithdir a Machreth.

Anfonwyd y llythyr ymlaen i'r aelodau.

<u>Penderfynwyd</u> rhoi gwybod iddynt gynnwys Rhydymain yn enw'r Cyngor.

h. Llythyr (1/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru gyda rhestr o swyddi gwag sydd ganddynt eu llenwi.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

i. Llythyr (1/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am Cynhadledd Blynyddol a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol bydd yn cael ei gynnal ar Faes y Sioe Amaethyddol, Llanelwedd ar ddydd Sadwrn 30/9/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

j. Llythyr (4/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod ar y cyd rhwng Un Llais Cymru a Society of Local Councils ar 8/11/2023.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

l. Llythyr (5/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod am gyfarfod 'Community Speed Watch' mae GoSafe a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ei gynnal ar 7/9/2023 am 6.00yp.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Llythyr (5/9/2023) oddi wrth Un Llais Cymru yn rhoi gwybod bod y cyfarfod wedi cael ei ganslo.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ll. Llythyr (7/9/2023) oddi wrth Swyddog Cefnogi Cymunedau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn grant i gefnogi cynlluniau bwyd a bwydo cymunedol.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

m. Llythyr (7/9/2023) oddi wrth Llywodraeth Cymru gyda ffurflen am wybodaeth maent ei angen am Goncrit Awyredig Awtoclafedig Atgyfnerthedig (RAAC) yn adeiladau cyhoeddus.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

n. Llythyr (8/9/2023) oddi wrth Swyddog Bioamrywiaeth, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae Partneriaeth Natur Gwynedd wedi cael arian i wella'r amgylchedd er budd Natur. O dan ddeddf Amgylchedd Cymru 2016 mae angen cynghorau cymuned i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth ar dir rydym yn berchen neu gyfrifol amdano. Enghreifftiau beth ellir ei wneud o dan raglen waith Cymunedau Gwyrdd Gwynedd: creu tir o flodau, creu coedlan, cynnal tiroedd er budd natur.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Penderfynwyd nid yw Bioamrywiaeth yn berthnasol i'r Cyngor oherwydd nid yw'n berchen neu yn gyfrifol am dir.

o. Llythyr (12/9/2023) oddi wrth Gerallt Griffith, Cadeirydd Neuadd Bentref Llanfachreth yn rhoi gwybod mae Mair Watts, Ymgynghorydd Cwmni Tir a Bro, yn dechrau drafftio cais ar ran Neuadd Bentref Llanfachreth i gronfa Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol Llywodraeth Cymru. Mae angen rhoi manylion cyswllt 3 partner a bydd y gronfa yn cysylltu efo nhw i drafod y prosiect.

A fyddai'r Cyngor Cymuned yn fodlon bod yn un o'r 3 partner sydd yn defnyddio y Neuadd? Mae'n golygu rhoi manylion cyswllt cynrychiolydd y grŵp – enw, rhif ffôn ac e-bost.

Dyma gopi o'r canllawiau i chi gael syniad.

Partneriaid.

Mae partner yn sefydliad rydych yn gweithio gydag ef i weithredu eich cyfleuster ac i gyflawni eich prosiect. Er enghraifft: mae grŵp cymunedol arall yn defnyddio eich cyfleuster yn rheolaidd ac yn cynnig cyfleoedd i bobl leol gael gafael ar hyfforddiant, cyngor a chefnogaeth, neu ddim ond i gymdeithasu ag eraill. Mae cefnogaeth gan bartneriaid yn eich helpu chi i ddangos bod galw am eich prosiect a bod y cyfleuster cymunedol rydych yn gobeithio ei wella yn cael ei ddefnyddio'n helaeth. Bydd angen i'r holl geisiadau ddangos sut mae'r gymuned wedi bod yn rhan o'r gwaith o ddatblygu'r prosiect a sut bydd yn parhau i gymryd rhan yn y ffordd y bydd y cyfleuster yn cael ei weithredu yn y dyfodol. Gall partneriaid eich helpu chi i ddarparu'r dystiolaeth hon. Gallech chi hefyd fod yn gweithio gyda eich Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Lleol, Cyngor Gwirfoddol Sirol neu un o raglenni Llywodraeth Cymru fel Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg neu'r Rhaglen Cymunedau am Waith. Bydd cael cymorth gan bartner o'r fath yn helpu i ddangos fod eich prosiect yn bwysig yn eich ardal. Bydd y math hwn o bartner hefyd yn eich helpu chi i ddangos na fydd eich prosiect yn dyblygu gwasanaethau sydd ar gael yn rhywle arall yn y gymuned.

Fe fyddwn yn ddiolchgar os gallwch chi drafod y mater yma yn cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned.

Diolch yn Fawr,
Gerallt Griffith,
Cadeirydd Neuadd Bentref Llanfachreth

Penderfynwyd i Gymdeithas Undebol Llanfachreth, Yr Eglwys a Chlwb Garddio i fod y tri phartner i'r gronfa cysylltu i drafod y prosiect. Roedd yr aelodau o'r farn nid oedd y Cyngor Cymuned yn addas fel partner oherwydd dim ond tair gwaith yn y flwyddyn roedd y Cyngor yn defnyddio'r adeilad a hynny am tua dwy awr..

## 7. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

a. Cais cynllunio NP5/54/66B. Gosod 13 panel solar (5.2 kWp) ar edrychiad gorllewinol y to. 32 Bryniau, Brithdir.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (26/7/2023).

b. Cais cynllunio NP5/54/464. Gosod tŵr latis telathrebu 40m o uchder newydd yn cynnwys 9 antena newydd a 3 dysgl newydd, gosod cypyrddau offer ar y ddaear gan gynnwys lloc caeedig rhag tywydd budr ac offer ategol cysylltiedig gan gynnwys pennau radio o bell, mwyhaduron pen mast a nodau GPS, gosod compownd 8m x 12m wedi'i amgáu gan ffensys rhwyll 1.8m o uchder, a gosod blwch adar a blwch bygiau i'w gosod ar y ffens compownd. Tir yn Moel Hafodowen, Coedwig Coed y Brenin, Llanfachreth.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (10/8/2023).

c. Cais cynllunio. NP5/54/T370A. Estyniad ochr a cefn. Rhyd Onnen, Rhydymain.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (5/9/2023).

ch. Cais cynllunio. NP5/54/583A. Atgyweirio ac ymestyn y tŷ presennol (Ail-gyflwyniad). Ty'r Orsaf, Drws-y-Nant.

Penderfynwyd cefnogi'r cais (11/9/2023).

**8. Materion Ariannol**

a. Llythyr (19/7/2023) oddi wrth Cerebral Plasy Cymru. Therapi a chefnogaeth i blant a'u teuluoedd. Maent angen cymorth ariannol.

Penderfynwyd trafod y mater mis Chwefror 'Cais am Nawdd'.

b. Bil (20/7/2023) am £246.00 oddi wrth Cyngor Gwynedd. Taliad tuag at wasanaeth Archwilio Mewnol ar gyfer cyfrifon 2022/2023.

Talwyd y bil (28/7/2023).

c. Llythyr (25/8/2023) oddi wrth Uned Taliadau, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd taliad praesept £6,000 yn ein cyfrif ar 28/8/2023. Taliad am hanner blwyddyn.

ch. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/7/2023: £1,152.36.
Balans yn y banc ar 29/7/2023: £9,299.12. (29/7/2022: £7,656.57).

d. Balans yn Account Rhif 61402277 ar 29/8/2023: £1,154.13.
Balans yn y banc ar 29/8/2023: £8,835.00. (29/8/2022: £7,455.25).

**9. Archwilio**

a. Anfonwyd (25/7/2023) y wybodaeth roedd Archwilio Cymru ei angen h.y. copiau o lythyrau gan aelodau yn gwrthod y lwfans o £150, a thystiolaeth bod datganiad o daliadau wedi ei anfon i IRPW.

**10. Adroddiad Cynghorydd Delyth Lloyd Griffiths**

a. Hysbyseb (3/8/2023) i Gefnogwyr Pwll y Gele am gyfarfod ar nos Lun 14eg o Awst 2023 ,am 5.30yh yn Llyfrgell Rhydd Dolgellau. Fydd hwn yn gyfarfod gyda Partneriaeth Dolgellau i drafod ffurfio grŵp swyddogol neu fod yn rhan o Bartneriaeth Dolgellau

b. Taflen wybodaeth Llywodraeth Cymru am 20mya (3/8/2023).

Anfonwyd y daflen i'r aelodau.

c. Llythyr (3/7/2023) oddi wrth Rheolwr Traffig a Phrosiectau/ Traffic and Project Manager, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod bydd gwaith monitro yn cael ei wneud wedi y newid mewn cyfyngiadau cyflymder 20mya. Mae hyn yn gysylltiedig â newid cyfyngiad 20mya yn Brithdir ac ymholiad preswylydd yn gofyn a fydd arwyddion rhwystro cyflymder ychwanegol i arafu cerbydau cyn cyrraedd yr arwyddion 20mya.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

Rhun yn holi (28/7/2023) am arwydd 40mya wrth Seren Fach.

Llythyr (14/8/2023) oddi wrth Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae'r canllawiau 20mya yn cael eu hadolygu ac mae'r Cyngor yn barod i drafod cyflymder y ffordd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

ch. Llythyr (14/8/2023) yn rhoi gwybod mae arwydd newydd i'r ffordd ddi-ddosbarth rhwng Gwanas a Brithdir wedi ei archebu ac mi fydd yn y lleoliad yn fuan.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

d. Llythyr (14/8/2023) oddi wrth Pennaeth Tai ac Eiddo, Cyngor Gwynedd gyda gwybodaeth ar sefyllfa gyfredol o ran perchnogaeth yr ysgolion a fu gau yn sgil ad-drefnu Ysgolion.

Ysgol Brithdir – Trosglwyddwyd i fuddiolwr rhoddwr gwreiddiol y safle yn unol â gofyn cyfreithiol.

Ysgol Llanfachreth – Tŷ'r Ysgol ym mherchnogaeth y Cyngor. Yn y broses o brynu safle'r ysgol gan yr Eglwys ar gyfer datblygiad Tai.

dd. Llythyr (21/8/2023) oddi wrth Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae gwaith torri gwair gwledig wedi bod yn araf oherwydd roedd rhaid newid contractwr i un arall sydd ddim yn gyfarwydd â'r ardal Roedd hyn wedi golygu rhoi gwybodaeth o'r ffyrdd oedd angen sylw. Bydd y gwaith y contractwr wedi ei gwblhau erbyn diwedd y mis.

Anfonwyd y daflen i'r aelodau.

e. Llythyr (3/9/2023) oddi wrth Mantell Gwynedd yn rhoi gwybod am eu grant sydd ar gael i grwpiau gwirfoddol a chymunedol. Mae'r grant at brosiect bydd yn arwain at wella safon bywyd trigolion a chymunedau Gwynedd.

Anfonwyd y llythyr i'r aelodau.

f. Bydd BT Openreach yn rhoi broadband yn Brithdir cyn Ebrill 2924.

**11. Materion yr Aelodau**

a. Anfonodd Peredur lythyr (19/7/2023) i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod mae angen glanhau dau grid dŵr. Mae un uwchben troad i Brynhyfryd gyferbyn a Doluwchadda a’r llall wrth gat y ffordd. Mae’r dŵr o’r un wrth ymyl y ffordd yn gorlifo i’r ffordd rhwng Llanfachreth a Bontnewydd.

b. Penderfynwyd rhoi gwybod i Priffyrdd, Cyngor Gwynedd mae angen pafin ar ochr y ffordd i gerddwyr ei defnyddio o'r Capel i'r Ysgol Feithrin Seren Fach, Brithdir. Mae hyn yn bennaf oherwydd nid oes cyflymder 20mya ar ddarn hon o'r ffordd.

Llofnod: Dyddiad:

----------------